Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

## Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Gofal Cymdeithasol a Iechyd 2022-23



Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg hefyd. Os hoffech gael copi mewn iaith neu fformat arall, cysylltwch â ni.

Wrth gyhoeddwyd, mae copi o bob adroddiad ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Arolygiaeth Gofal Cymru**
**Swyddfa Llywodraeth Cymru**
**Sarn Mynach**
**Cyffordd Llandudno**
**Conwy**
**LL31 9RZ**

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhydycar**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu trwy'r canlynol:


| | |
|---|---|
| **Ffôn:** | **0300 7900 126** |
| **Ebost:** | **agc@llyw.cymru** |
| **Gwefan:** | **www.arolygiaethgofal.cymru** |

| | |
|---|---|
| **Ffôn:** | **0300 062 8163** |
| **Ebost:** | **hiw@llyw.cymru** |
| **Gwefan:** | **www.hiw.org.uk** |



OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru WG49279, ISBN digidol 978-1-83577-543-1
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2022-23

**Tabl Cynnwys**


**Cyflwyniad** .................... 3

**Canfyddiadau Allweddol** .................... 5

**1. Nifer y ceisiadau** .................... 6

Nifer y Ceisiadau .................... 6

Nifer y ceisiadau am DoLS fesul 100,000 o'r boblogaeth sy'n oedolion .................... 8

Ceisiadau gan sefydliadau trydydd parti .................... 10

Ceisiadau gan awdurdodau rheoli y tu allan i Gymru .................... 11

**2. Math o geisiadau** .................... 12

Ceisiadau safonol .................... 12

Ceisiadau safonol yn dilyn rhai brys .................... 12

Ceisiadau pellach .................... 12

**3. Yr amser a gymerodd i ddyrannu ceisiadau i'w hasesu** .................... 14

Ceisiadau heb eu dyrannu .................... 14

Ceisiadau a dynnwyd yn ôl .................... 14

Yr amser a gymerodd i ddyrannu ceisiadau i'w hasesu .................... 16

Yr amser a gymerodd i ddyrannu asesiadau safonol .................... 17

Yr amser a gymerodd i ddyrannu asesiadau safonol yn dilyn rhai brys .................... 19

Yr amser a gymerodd i ddyrannu asesiadau pellach .................... 21

**4. Cwblhau asesiadau** .................... 24

Cwblhau asesiadau safonol .................... 24

Cwblhau asesiadau safonol yn dilyn rhai brys .................... 26

Cwblhau asesiadau pellach .................... 28

**5. Canlyniad asesiadau** .................... 31

Ceisiadau a awdurdodwyd .................... 31

Ceisiadau a wrthodwyd a'r rheswm dros hynny .................... 35

**6. Hyd awdurdodiad** .................... 37

Hyd awdurdodiad .................... 37

**7. Nodweddion unigol** .................... 39

Ceisiadau yn ôl Oedran, Rhywedd ac Ethnigrwydd .................... 39

**8. Monitro a Chymorth ........ 41**
Adolygiadau ........ 41
Cynrychiolaeth........ 41
Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol ........ 41
Y Llys Gwarchod ........ 42
**Atodiad i'r Adroddiad........ 44**
Ansawdd Data........ 44
Adborth ar yr adroddiad hwn........ 44
Rhestr Termau: Termau allweddol a ddefnyddir yn yr Adroddiad Monitro DoLS . 45

## Cyflwyniad

Dyma adroddiad monitro blynyddol Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ar ddefnyddio Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yng Nghymru.  Lluniwyd yr adroddiad hwn ar ran Gweinidogion Cymru. Mae'n ymdrin â'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2022 a diwedd mis Mawrth 2023.

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (y Ddeddf) yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer gweithredu ar ran pobl nad oes ganddynt y galluedd i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain, a gwneud penderfyniadau ar eu rhan. Mae'r Ddeddf yn nodi pwy all wneud penderfyniadau ar ran rhywun nad oes ganddo'r gallu i wneud hynny drosto'i hun, pryd a sut. Mae'n sicrhau y caiff penderfyniadau eu gwneud er budd pennaf y person, ac y caiff y person ei gynnwys yn y penderfyniad gymaint â phosibl.

Cyflwynwyd DoLS fel diwygiad i'r Ddeddf, a daethant i rym ym mis Ebrill 2009, gan ddarparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer sefyllfaoedd lle y gall rhywun gael ei amddifadu o'i ryddid o fewn ystyr erthygl 5 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Gwnaeth dyfarniad y Goruchaf Lys ym mis Mawrth 2014[1], sef dyfarniad Gorllewin Swydd Gaer, egluro'r diffiniad ac ehangu cwmpas sefyllfaoedd lle mae rhywun yn cael ei amddifadu o'i ryddid. Mae'r Trefniadau Diogelu yn sicrhau y defnyddir y broses gywir i amddiffyn hawliau dynol pobl nad oes ganddynt y galluedd i gydsynio i'r trefniadau gofal sydd eu hangen arnynt; sy'n cael eu goruchwylio a'u rheoli'n barhaus; ac nad ydynt yn rhydd i adael.

Nod DoLS yw amddiffyn pobl mewn cartrefi gofal ac ysbytai y gall fod angen eu hamddifadu o'u rhyddid. Gelwir ysbytai a chartrefi gofal yn awdurdodau rheoli. Gelwir y cyrff sy'n awdurdodi ceisiadau am DoLS yn Gyrff Goruchwylio. Bydd ysbytai yn cyflwyno cais i'w bwrdd iechyd lleol/cyfatebol awdurdodi unrhyw geisiadau am DoLS a wneir. Bydd cartrefi gofal yn cyflwyno cais i'w hawdurdod lleol am awdurdodiad o'r fath. Yng Nghymru, yr awdurdod lleol sy'n awdurdodi yw'r awdurdod lleol lle mae'r unigolyn yn byw fel arfer cyn symud i'r cartref gofal.

Disgrifir y tri math o geisiadau am DoLS isod:

- Ceisiadau safonol – Os bydd staff cartref gofal neu ysbyty yn cwblhau cais safonol, yna rhaid i'r asesiadau gofynnol gael eu cwblhau o fewn 21 diwrnod i'r dyddiad y cafodd yr aseswyr eu cyfarwyddo gan y Corff Goruchwylio.
- Ceisiadau brys – Gall cartref gofal neu ysbyty gyflwyno ei awdurdodiad brys ei hun er mwyn amddifadu person o'i ryddid os bydd angen gwneud hynny cyn y gellir cael awdurdodiad safonol. Ar yr un pryd, rhaid iddo wneud cais am awdurdodiad safonol (os na fydd eisoes wedi gwneud hynny). Pan fydd yr awdurdod rheoli wedi cyflwyno ei awdurdodiad brys ei hun ac yn gwneud cais

[1] Gweler Cheshire West and Chester Council v P (2014) UKSC 19

am awdurdodiad safonol, rhaid i'r aseswyr gwblhau'r asesiad o fewn pum diwrnod i'r dyddiad y cânt eu cyfarwyddo i wneud hynny. Rydym yn cyflwyno adroddiad ar wahân ar y cais am awdurdodiad safonol, yn dilyn awdurdodiad brys. Caiff hyn ei gategoreiddio fel awdurdodiad brys yn yr adroddiad.

- Ceisiadau pellach – Pan fydd awdurdodiad DoLS presennol ar fin dod i ben, a daw'r awdurdod rheoli i'r casgliad bod angen i'r awdurdodiad barhau, dylid gwneud cais am awdurdodiad pellach. Gellir gwneud hyn 28 diwrnod ymlaen llaw.

Arweiniodd dyfarniad y Goruchaf Lys yn 2014 at gynnydd mawr iawn yn nifer y ceisiadau i awdurdodi DoLS. Cyhoeddodd Tŷ'r Arglwyddi adroddiad craffu[2] (2014) ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005, a ddaeth i'r casgliad nad oedd DoLS yn "addas at y diben" gan argymell y dylid cyflwyno trefniadau eraill yn eu lle.

Cyflwynwyd y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid gan Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 i ddisodli DoLS fel y system i amddifadu rhywun dros 16 oed o'i ryddid yn gyfreithlon. Roedd Llywodraeth y DU wedi gobeithio rhoi'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid ar waith yn llawn erbyn mis Ebrill 2022, ond oherwydd effaith pandemig COVID-19 yn bennaf, oedwyd y broses o'u rhoi ar waith. Ar 5 Ebrill 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'r broses o roi'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid ar waith yn cael ei hoedi y tu hwnt i'r Senedd hon.

Mynegodd Llywodraeth Cymru ei siom ynghylch y penderfyniad hwn, gan nodi bod yr "hawl i ryddid yn un o'n hawliau dynol mwyaf sylfaenol". O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried sut y gellir cryfhau'r system DoLS bresennol yng Nghymru er mwyn sicrhau y caiff hawliau dynol pobl yng Nghymru nad oes ganddynt alluedd meddyliol eu hyrwyddo a'u hamddiffyn.

Hyd nes y caiff y newidiadau hyn eu rhoi ar waith, bydd y DoLS yn parhau, ac mae'n bwysig bod awdurdodau lleol, byrddau iechyd a darparwyr yn parhau i ddilyn y broses ar gyfer DoLS er mwyn sicrhau y caiff hawliau pobl eu hamddiffyn ac y caiff trefniadau gofal a chymorth yr ystyrir eu bod yn amddifadu o ryddid eu hawdurdodi'n briodol.

[2] Gweler Select Committee on the Mental Capacity Act 2005 - Report

## Canfyddiadau Allweddol

- Bu cynnydd pellach yn nifer y ceisiadau a gafodd awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn 2022-23.
- Mae'r oedi hir cyn dyrannu, asesu ac awdurdodi ceisiadau yn parhau i olygu bod llawer o bobl yng Nghymru yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid heb fod unrhyw amddiffyniad cyfreithiol ar waith nac unrhyw gyfle i herio wrth aros i benderfyniad gael ei wneud.
- Bu cynnydd o 18% yn nifer y ceisiadau a aseswyd gan awdurdodau lleol yn 2022-23, wrth i geisiadau 909 ychwanegol o bobl gael eu hasesu; o gymharu â ffigurau 2021-22. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn defnyddio'r cyllid parhaus y maent yn ei gael gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r oedi o ran asesu ceisiadau.
- Bu cynnydd o 32% yn nifer y ceisiadau a aseswyd gan fyrddau iechyd yn 2022-23, wrth i asesiadau 464 ychwanegol o bobl gael eu hasesu o gymharu â'r ffigurau a welwyd yn 2021-22.
- Rhaid i'r cyfnod o amser y mae'n ei gymryd i Gyrff Goruchwylio awdurdodau lleol a byrddau iechyd asesu ceisiadau wella, gan na chaiff llawer o geisiadau eu hasesu o fewn y cyfnod statudol.
- Daw llawer o awdurdodiadau brys i ben cyn y gellir cynnal yr asesiadau DoLS gofynnol. Gallai fod o fudd i rai awdurdodau lleol a byrddau iechyd adolygu eu gweithdrefnau presennol ar gyfer awdurdodiadau brys ar y cyd â'r awdurdodau rheoli.
- Ni all y rhan fwyaf o awdurdodau lleol a byrddau iechyd ddyrannu nifer y ceisiadau a geir am awdurdodiadau pellach. Unwaith eto, mae hyn yn cynyddu'r risg y caiff pobl eu hamddifadu o'u rhyddid heb amddiffyniad parhaus y trefniadau diogelu. Rhaid i bob Corff Goruchwylio sicrhau y caiff hawliau pobl eu hamddiffyn, ac y caiff yr asesiadau ar gyfer pob cais eu cynnal o fewn y nifer o ddiwrnodau a nodir yn y Cod ymarfer ar gyfer DoLS.
- Mae defnydd awdurdodau lleol a byrddau iechyd o amodau yn amrywio, gyda rhai rhanbarthau yn eu defnyddio'n fwy nag eraill. Dylai Cyrff Goruchwylio sicrhau y caiff amodau eu defnyddio lle bo angen a'u bod yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i bobl, gan gynnwys lleihau neu roi'r gorau i'r amddifadu.
- Caiff y rhan fwyaf o bobl eu cefnogi a'u cynrychioli mewn materion sy'n ymwneud â'u hamddifadu o'u rhyddid. Rhaid i Gyrff Goruchwylio barhau i sicrhau y caiff “cynrychiolydd person perthnasol” ei benodi ar gyfer pob awdurdodiad.

# 1. Nifer y ceisiadau

## Nifer y Ceisiadau

Cafodd byrddau iechyd gyfanswm o 12,112 o geisiadau am DoLS yn 2022-23. Mae hyn yn gynnydd o 24% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sef 2021-22 (9,742).


Cyngor Abertawe sy'n cofnodi'r nifer mwyaf o geisiadau am DoLS o hyd (1,231), a chofnododd 20 o'r 22 o awdurdodau lleol gynnydd. Mae nifer o awdurdodau lleol wedi gweld cynnydd sylweddol y nifer y ceisiadau gan awdurdodau rheoli, gydag Abertawe yn cofnodi cynnydd o 27% yn nifer y ceisiadau, o 973 o geisiadau yn 2021-22 i 1,231 o geisiadau yn 2022-23. Cafodd Sir Benfro 67% yn fwy o geisiadau, a chafodd Ceredigion a Chaerdydd 56% a 47% yn fwy o geisiadau, yn y drefn honno.

Dim ond dau awdurdod lleol a gofnododd leihad yn nifer y ceisiadau a gafwyd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol; Cafodd Ynys Môn 10% yn llai o geisiadau, a chafodd Merthyr 7% yn llai. Cofnododd Castell-nedd Port Talbot hefyd 8% yn llai o geisiadau o gymharu data 2020-21 (840) â data 2022-23 (770). Gweler Ffigur 1.1.


Cafodd byrddau iechyd gyfanswm o 6,989 o geisiadau am DoLS yn 2022-23. Mae hyn yn gynnydd o tua 14% o gymharu â'r niferoedd a welwyd yn 2021-22 (6,126) a 2020-21 (6,111).

Roedd y galw yn amrywio rhwng y byrddau iechyd. Gwelwyd cynnydd sylweddol ym Myrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Chwm Taf Morgannwg. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau a wnaed i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn 2022-23, yn dilyn y lleihad yn nifer y ceisiadau am DoLS a welwyd yn 2021-22. Gweler Ffigur 1.2.

**Ffigur 1.1**. Nifer y ceisiadau am DoLS a gafodd pob awdurdod lleol rhwng 2020 a 2023.



**Ffigur 1.2.** Nifer y ceisiadau am DoLS a gafodd pob bwrdd iechyd rhwng 2020 a 2023.




## *Nifer y ceisiadau am DoLS fesul 100,000 o'r boblogaeth sy'n oedolion*

Yn 2021, 3.11 miliwn oedd poblogaeth amcangyfrifedig Cymru, yr oedd 2.49 miliwn ohoni dros 18 oed[3]. Mae hyn yn golygu y gwnaed 281 o geisiadau i fyrddau iechyd, a 487 o geisiadau i awdurdodau lleol, fesul 100,000 o oedolion yng Nghymru ar gyfartaledd.

Yn debyg i flynyddoedd blaenorol, mae cryn amrywio rhwng awdurdodau lleol, gan ddangos darlun cymhleth o ran demograffeg leol a gwybodaeth a dealltwriaeth y sector o DoLS.

O gymharu â maint y boblogaeth, cafodd awdurdodau lleol Castell-nedd Port Talbot (677), Wrecsam (646), Abertawe (641) a Cheredigion (600) niferoedd uchel o geisiadau fesul 100,000 o'r boblogaeth.

Fodd bynnag, am y drydedd flwyddyn yn olynol, Merthyr Tydfil (220) and Rhondda Cynon Taf (266) a gofnododd y cyfraddau DoLS isaf, gyda'r cyfraddau hyn ymhell islaw cyfartaledd Cymru. Gweler Tabl 1.1.

[3] Gweler Amcangyfrifon poblogaeth lefel cenedlaethol fesul blwyddyn, oed a gwlad y DU (llyw.cymru)

**Tabl 1.1.** Cyfanswm y boblogaeth sy'n oedolion a nifer y ceisiadau am DoLS a gafodd pob awdurdod lleol a nifer y ceisiadau fesul 100,000 o'r boblogaeth sy'n oedolion yn 2022-23.

| | **Cyfanswm y Boblogaeth 18 oed a throsodd** | **Nifer y ceisiadau am DoLS** | **Ceisiadau am DoLS fesul 100,000** |
|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 53,879 | 213 | 395 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 116,466 | 556 | 477 |
| Caerffili | 139,535 | 535 | 383 |
| Caerdydd | 285,776 | 1152 | 403 |
| Sir Gaerfyrddin | 151,571 | 875 | 577 |
| Ceredigion | 59,215 | 355 | 600 |
| Conwy | 94,096 | 473 | 503 |
| Sir Ddinbych | 76,864 | 394 | 513 |
| Sir y Fflint | 124,110 | 571 | 460 |
| Gwynedd | 95,253 | 311 | 326 |
| Ynys Môn | 55,772 | 245 | 439 |
| Merthyr Tudful | 46,445 | 102 | 220 |
| Sir Fynwy | 76,439 | 393 | 514 |
| Castell-nedd Port Talbot | 113,695 | 770 | 677 |
| Casnewydd | 123,770 | 699 | 565 |
| Sir Benfro | 100,176 | 592 | 591 |
| Powys | 110,097 | 568 | 516 |
| Rhondda Cynon Taf | 188,258 | 501 | 266 |
| Abertawe | 192,088 | 1231 | 641 |
| Torfaen | 73,234 | 278 | 380 |
| Bro Morgannwg | 104,969 | 605 | 576 |
| Wrecsam | 107,242 | 693 | 646 |
| **Pob Awdurdod Lleol** | **2,488,950** | **12,112** | **487** |

Yn debyg i'r cyfansymiau, roedd nifer y ceisiadau o gymharu â maint y boblogaeth yn amrywio'n sylweddol rhwng y byrddau iechyd. Efallai mai'r rheswm dros hyn yw gwahaniaethau mewn demograffeg leol a nifer yr awdurdodau rheoli yn yr ardal honno. Er enghraifft, mae gan rai awdurdodau lleol nifer uwch o leoliadau cleifion mewnol, oedolion hŷn ac anableddau dysgu yn eu hardal ddaearyddol, a all arwain at nifer uwch o geisiadau am DoLS.

Cwm Taf Morgannwg a gafodd y nifer uchaf o geisiadau o gymharu â maint y boblogaeth (409). Hywel Dda a gofnododd y nifer lleiaf o geisiadau o gymharu â maint y boblogaeth (145), ac roedd ymhell islaw cyfartaledd Cymru. Gweler Tabl 1.2.

**Tabl 1.2.** Cyfanswm y boblogaeth sy'n oedolion a nifer y ceisiadau am DoLS a gafodd pob bwrdd iechyd a nifer y ceisiadau fesul 100,000 o'r boblogaeth sy'n oedolion yn 2022-23.

| | Cyfanswm y Boblogaeth 18 oed a throsodd | Nifer y ceisiadau am DoLS | Ceisiadau am DoLS fesul 100,000 |
|---|---|---|---|
| Aneurin Bevan | 466,857 | 1268 | 271.6 |
| Betsi Cadwaladr | 553,337 | 1578 | 285.2 |
| Caerdydd a'r Fro | 390,745 | 1167 | 298.7 |
| Cwm Taf Morgannwg | 351,169 | 1435 | 408.6 |
| Hywel Dda | 310,962 | 452 | 145.4 |
| Addysgu Powys | 110,097 | 329 | 298.8 |
| Bae Abertawe | 305,783 | 760 | 248.5 |
| **Pob Bwrdd Iechyd** | **2,488,950** | **6,989** | **280.8** |

### *Ceisiadau gan sefydliadau trydydd parti*

Os bydd y person, unrhyw berthynas, ffrind neu ofalwr, neu unrhyw drydydd parti arall o'r farn bod person yn cael ei amddifadu o'i ryddid heb fod yr awdurdod rheoli wedi gwneud cais am awdurdodiad, dylai dynnu sylw'r awdurdod rheoli at hyn. Os bydd y person dan sylw wedi codi'r mater gyda'r awdurdod rheoli ac na fydd yr awdurdod rheoli yn gwneud cais am awdurdodiad o fewn cyfnod rhesymol o amser, gall y person dan sylw ofyn i'r Corff Goruchwylio benderfynu a oes achos o amddifadu o ryddid heb awdurdod.

Cafodd yr holl geisiadau am DoLS i awdurdodau lleol yn 2022-23 eu cyflwyno gan awdurdodau rheoli. O blith y 6,989 o geisiadau a gyflwynwyd i fyrddau iechyd, cafodd chwech eu cyflwyno gan drydydd parti, yn cynnwys 4 a gyflwynwyd gan gynrychiolydd cyflogedig a dau gan weithiwr proffesiynol arall.

### *Ceisiadau gan awdurdodau rheoli y tu allan i Gymru*

Mae rhai pobl o Gymru yn cael eu gofal a'u cymorth neu driniaeth mewn cartref gofal neu ysbyty y tu allan i Gymru. Pan fydd y cais yn cael ei wneud gan awdurdod rheoli y tu allan i Gymru, a bydd y gofal a'r cymorth neu'r triniaethau wedi cael eu trefnu gan awdurdod lleol neu fwrdd iechyd yng Nghymru, y Cyrff Goruchwylio yng Nghymru fydd yn gyfrifol am yr asesiadau DoLS o hyd.

Yn ystod 2022-23, cafodd 1.9% (234) o'r ceisiadau am DoLS a wnaed i awdurdodau lleol eu gwneud y tu allan i Gymru. Cafodd y rhain eu gwneud gan awdurdodau rheoli i 19 o awdurdodau lleol.   O gymharu â'r flwyddyn flaenorol, cafwyd 10 cais yn fwy y tu allan i Gymru. Cafodd bron i draean o'r ceisiadau (70) eu gwneud i Bowys, yna 11% (25) i Sir y Fflint. Dim ond tri awdurdod lleol na chawsant unrhyw geisiadau o Loegr, sef Blaenau Gwent, Caerffili a Bro Morgannwg.

Yn ystod 2022-23, cafodd 4.5% (313) o'r ceisiadau am DoLS eu gwneud i ddau awdurdod lleol gan awdurdodau rheoli y tu allan i Gymru. Cafodd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys 184 o geisiadau y tu allan i Gymru, a chafodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr 129 o geisiadau y tu allan i Gymru. Mae'r ddau fwrdd iechyd ar y ffin â Lloegr. Ni chafodd y byrddau iechyd eraill unrhyw geisiadau y tu allan i Gymru.

## 2. Math o geisiadau

### *Ceisiadau safonol*

Mae'r mathau o geisiadau a gafodd awdurdodau lleol yn 2022-23 yn debyg i'r mathau a gofnodwyd yn 2021-22. O blith y 12,112 o geisiadau a gofnodwyd yn 2022-23, mae 47% (5,736) ar gyfer awdurdodiad safonol. Mae hyn yn ostyngiad bach o gymharu â'r 49% (4,808) o geisiadau safonol a gofnodwyd ar gyfer y flwyddyn flaenorol.

Canran isel o geisiadau safonol a gafodd Blaenau Gwent sef 19% ac, unwaith eto, ni chafodd Wrecsam unrhyw geisiadau safonol gan awdurdodau rheoli. Gweler Tabl 2.1.

Yn 2022-23, dim ond 8% o'r ceisiadau a wnaed i fyrddau iechyd oedd yn geisiadau safonol. Mae hyn yn ostyngiad bach o gymharu â'r ganran o geisiadau safonol a gofnodwyd yn 2021-22 (10%).

Nifer bach o geisiadau safonol a gafodd Byrddau Iechyd Prifysgol Hywel Dda (0%), Bae Abertawe (0%) a Betsi Cadwaladr (1%) Gweler Tabl 2.2.

### *Ceisiadau safonol yn dilyn rhai brys*

O ran awdurdodau lleol, cafodd 18% (2,188) o'r ceisiadau a wnaed yn 2022-23 eu gwneud drwy'r llwybr brys, sef 2% yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Y Cyrff Goruchwylio sydd â'r canrannau isaf yw Pen-y-bont ar Ogwr, sef 2% (10), a Gwynedd, sef 3% (10). Gweler Tabl 2.1.

Ceisiadau brys oedd y rhan fwyaf o'r 6,989 o geisiadau a wnaed i fyrddau iechyd yn 2022-23 (89% o'r holl geisiadau). Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o flwyddyn i flwyddyn, o 87% yn 2021-22, 81% yn 2020-21 a 75% yn 2019-20.

### *Ceisiadau pellach*

Ceisiadau pellach oedd y 35% (4,188) arall o geisiadau a gyflwynwyd i awdurdodau lleol yn 2022-23, sy'n gynnydd o gymharu â'r 31% (2,975) a gofnodwyd yn 2021-22. Yn ein hadroddiad ar gyfer 2021-22, nodwyd nad oedd tri awdurdod lleol yn cyflwyno ceisiadau pellach o ganlyniad i faterion cofnodi. Yn dilyn trafodaethau, diweddarodd Cyngor Sir y Fflint ei setiau data i gynnwys ceisiadau pellach. Mae Cyngor Sir Ddinbych wrthi'n diweddaru ei setiau data fel bod modd iddo adrodd ar nifer y ceisiadau pellach o 2023-24 ymlaen. Gweler Tabl 2.1.

O ran byrddau iechyd, ceisiadau pellach oedd y 3% arall o geisiadau a gyflwynwyd yn 2022-23 sef yr un ganran o geisiadau ag a welwyd yn 2021-22 (3%). Gweler Tabl 2.2.

**Tabl 2.1.** Canran y mathau gwahanol o geisiadau ar gyfer pob awdurdod lleol yn 2022-23.

| *(Nifer y ceisiadau)* | **Safon** | **Brys** | **Pellach** |
|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent *(213)* | 19% | 50% | 31% |
| Pen-y-bont ar Ogwr *(556)* | 46% | 2% | 52% |
| Caerffili *(535)* | 39% | 44% | 17% |
| Caerdydd *(1,152)* | 58% | 5% | 37% |
| Sir Gaerfyrddin *(875)* | 57% | 9% | 34% |
| Ceredigion *(355)* | 46% | 5% | 49% |
| Conwy *(473)* | 34% | 30% | 35% |
| Sir Ddinbych *(394)* | 96% | 4% | 0% |
| Sir y Fflint *(571)* | 50% | 12% | 39% |
| Gwynedd *(311)* | 97% | 3% | 0% |
| Ynys Môn *(245)* | 37% | 16% | 47% |
| Merthyr Tudful *(102)* | 57% | 24% | 20% |
| Sir Fynwy *(393)* | 23% | 52% | 25% |
| Castell-nedd Port Talbot *(770)* | 38% | 6% | 56% |
| Casnewydd *(699)* | 42% | 20% | 37% |
| Sir Benfro *(592)* | 37% | 14% | 49% |
| Powys *(568)* | 48% | 26% | 26% |
| Rhondda Cynon Taf *(501)* | 59% | 32% | 10% |
| Abertawe *(1,231)* | 61% | 5% | 34% |
| Torfaen *(278)* | 25% | 49% | 26% |
| Bro Morgannwg *(605)* | 55% | 5% | 40% |
| Wrecsam *(693)* | 0% | 54% | 46% |
| **Pob Awdurdod Lleol** | **47%** | **18%** | **35%** |
| *(Nifer y ceisiadau)* | *5,736* | *2,188* | *4,188* |

**Tabl 2.2.** Canran y mathau gwahanol o geisiadau ar gyfer pob bwrdd iechyd yn 2022-23.

| *(Nifer y ceisiadau)* | **Safon** | **Brys** | **Pellach** |
|---|---|---|---|
| Aneurin Bevan *(1268)* | 5% | 95% | 0% |
| Betsi Cadwaladr *(1578)* | 1% | 94% | 5% |
| Caerdydd a'r Fro *(1167)* | 15% | 81% | 3% |
| Cwm Taf Morgannwg *(1435)* | 18% | 76% | 6% |
| Hywel Dda *(452)* | 0% | 94% | 5% |
| Addysgu Powys *(392)* | 6% | 94% | 0% |
| Bae Abertawe *(760)* | 0% | 100% | 0% |
| **Pob Bwrdd Iechyd** | **8%** | **89%** | **3%** |
| *(Nifer y ceisiadau)* | *528* | *6227* | *234* |

## 3. Yr amser a gymerodd i ddyrannu ceisiadau i'w hasesu

Mae'r data a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol yn dangos bod nifer mawr o bobl sy'n aros am asesiad DoLS yn wynebu oedi cyn i'w cais gael ei ddyrannu i asesydd. Mae hyn yn arwain at oedi cyn cwblhau asesiadau, oedi cyn rhoi awdurdodiadau, a chyfnodau estynedig posibl o amddifadu anghyfreithlon.

### *Ceisiadau heb eu dyrannu[4]*

O blith y 6,616 o geisiadau a gafodd awdurdodau lleol, roedd 38% (4,580) yn dal i fod heb eu dyrannu ar 1 Ebrill 2023, sef cynnydd o 1% o gymharu â ffigur y flwyddyn flaenorol.

Yn debyg i ddarlun y flwyddyn flaenorol, nid oedd gan Wrecsam unrhyw geisiadau heb eu dyrannu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful, ynghyd â Gwynedd a gofnododd y gyfran uchaf o geisiadau heb eu dyrannu ar ddiwedd 2022-23. Unwaith eto, mae hyn yn dangos bod llawer o bobl yn aros rhy hir am i'w cais am DoLS gael ei asesu, a allai dorri eu hawliau dynol. Gweler Tabl 3.2.

O blith y 6,989 o geisiadau a gafodd byrddau iechyd, roedd 23% (1,601) yn dal i fod heb eu dyrannu ar 1 Ebrill 2023, sef cynnydd o 13% o gymharu â ffigur y flwyddyn flaenorol. Gweler Tabl 3.1.

### *Ceisiadau a dynnwyd yn ôl*

Yn 2022-23, dim ond 48% (3,373) o'r ceisiadau a wnaed i fyrddau iechyd a gafodd eu tynnu'n ôl cyn iddynt gael eu hasesu. Y prif resymau a roddwyd oedd bod y person wedi cael ei ryddhau neu wedi marw. Gweler Tabl 3.1.

**Tabl 3.1.** Cyfran y ceisiadau a dynnwyd yn ôl neu a oedd heb eu dyrannu fesul bwrdd iechyd yn 2022-23.

| *(Nifer y ceisiadau)* | **Tynnwyd yn ôl** | **Heb eu Dyrannu** |
|---|---|---|
| Aneurin Bevan *(1268)* | 67% | 30% |
| Betsi Cadwaladr *(1578)* | 69% | 7% |
| Caerdydd a'r Fro *(1,166)* | 4% | 79% |
| Cwm Taf Morgannwg *(1435)* | 57% | 11% |
| Hywel Dda *(452)* | 83% | 1% |
| Addysgu Powys *(339)* | 63% | 10% |
| Bae Abertawe *(760)* | 0% | 0% |
| **Pob Bwrdd Iechyd** | **48%** | **23%** |
| *(Nifer y Ceisiadau)* | *3373* | *1601* |

[4]Cyfeirir at geisiadau heb eu dyrannu fel ceisiadau sydd ar y gweill ar y ffurflen casglu data am DoLS gyfredol.

O ran awdurdodau lleol, yn ystod 2022-23, cafodd 13% (1,546) o'r ceisiadau a wnaed eu tynnu'n ôl cyn iddynt gael eu hasesu, sef cynnydd o 1% o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf. Y prif resymau a roddwyd oedd bod y person wedi symud i gartref gofal, wedi dychwelyd adref, neu wedi marw. Pan fydd pobl yn symud i gartref gofal arall, rhaid i gais newydd gael ei wneud os oes angen trefniadau diogelu o hyd. Gall y bobl hyn fod wedi cael eu hamddifadu o'u rhyddid heb fod y trefniadau diogelu priodol ar waith. Gweler Tabl 3.2.

**Tabl 3.2.** Cyfran y ceisiadau a dynnwyd yn ôl neu a oedd heb eu dyrannu fesul awdurdod lleol yn 2022-23.

| *(Nifer y ceisiadau)* | **Tynnwyd yn ôl** | **Heb eu Dyrannu** |
|---|---|---|
| Blaenau Gwent *(70)* | 16% | 17% |
| Pen-y-bont ar Ogwr *(266)* | 16% | 32% |
| Caerffili *(311)* | 19% | 39% |
| Caerdydd *(642)* | 0% | 56% |
| Sir Gaerfyrddin *(612)* | 20% | 50% |
| Ceredigion *(147)* | 18% | 23% |
| Conwy *(351)* | 20% | 54% |
| Sir Ddinbych *(243)* | 7% | 55% |
| Sir y Fflint *(434)* | 25% | 51% |
| Gwynedd *(256)* | 11% | 71% |
| Ynys Môn *(100)* | 11% | 29% |
| Merthyr Tudful *(88)* | 22% | 65% |
| Sir Fynwy *(215)* | 6% | 48% |
| Castell-nedd Port Talbot *(290)* | 11% | 27% |
| Casnewydd *(699)* | 16% | 11% |
| Sir Benfro *(349)* | 13% | 46% |
| Powys *(357)* | 18% | 45% |
| Rhondda Cynon Taf *(437)* | 19% | 68% |
| Abertawe *(287)* | 11% | 12% |
| Torfaen *(158)* | 15% | 42% |
| Bro Morgannwg *(281)* | 1% | 45% |
| Wrecsam *(45)* | 6% | 0% |
| **Pob Awdurdod Lleol** | **13%** | **38%** |
| *(Nifer y Ceisiadau)* | *1,546* | *4,580* |

### *Yr amser a gymerodd i ddyrannu ceisiadau i'w hasesu*

O blith y 6,616 o geisiadau a ddyrannwyd i'w hasesu, dim ond 28% (1,857) a gafodd eu dyrannu o fewn saith diwrnod ar ôl i'r awdurdod lleol gael y cais. Cymerodd fwy na 28 diwrnod i 45% (2,933) o'r ceisiadau gael eu dyrannu. Ni chofnododd awdurdod lleol Gwynedd y dyddiadau dyrannu yn ei ddadansoddiad. Gweler Tabl 3.3.

Wrth ystyried faint o amser a gymerodd i awdurdodau lleol ddyrannu ceisiadau am DoLS i'w hasesu yn ôl y math o gais, ar gyfer ceisiadau safonol y gwelwyd yr amseroedd aros hwyaf. O blith y 2,581 o geisiadau safonol, cymerodd fwy na mis i 60% (1,541) gael eu dyrannu. O blith y 1,081 o geisiadau safonol a wnaed yn dilyn rhai brys, cymerodd fwy na 14 diwrnod i 55% (596) gael eu dyrannu. O ran y 2,954 o geisiadau pellach, cymerodd fwy na mis i 32% (954) gael eu dyrannu. Gweler Tabl 3.3.

**Tabl 3.3.** Yr amser a gymerodd i ddyrannu pob cais am DoLS i'w asesu yn ôl y math o gais ac awdurdod lleol yn 2022-23.

| | 1-7 diwrnod | 8-14 diwrnod | 15-28 diwrnod | 1-3 mis | 3-6 mis | Mwy na 6 mis |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Safon** | | | |
| **Pob Awdurdod Lleol** | 16% | 11% | 13% | 30% | 22% | 8% |
| *Nifer y Ceisiadau* | *415* | *283* | *342* | *763* | *579* | *199* |
| | | | **Brys** | | | |
| **Pob Awdurdod Lleol** | 34% | 11% | 15% | 20% | 14% | 6% |
| *Nifer y Ceisiadau* | *364* | *121* | *158* | *220* | *156* | *62* |
| | | | **Pellach** | | | |
| **Pob Awdurdod Lleol** | 36% | 15% | 17% | 20% | 11% | 2% |
| *Nifer y Ceisiadau* | *1,078* | *430* | *492* | *581* | *312* | *61* |
| | | | **Pob Cais** | | | |
| **Pob Awdurdod Lleol** | 28% | 13% | 15% | 24% | 16% | 5% |
| *Nifer y Ceisiadau* | *1,857* | *834* | *992* | *1,564* | *1,047* | *322* |

O ran byrddau iechyd, o blith y 1,900 o geisiadau a ddyrannwyd i'w hasesu, cafodd tua 512 (27%) eu dyrannu i'w hasesu ar o fewn 7 diwrnod ar ôl cafodd y bwrdd iechyd y cais. Fodd bynnag, cymerodd fwy na 28 diwrnod i 601 (32%) o'r ceisiadau gael eu dyrannu. Gweler Tabl 3.4.

Wrth ystyried faint o amser a gymerodd i fyrddau iechyd ddyrannu ceisiadau am DoLS i'w hasesu yn ôl y math o gais, ar gyfer ceisiadau safonol yn dilyn rhai brys y gwelwyd yr amseroedd aros hwyaf.

O blith y 55 o geisiadau safonol, cymerodd fwy na mis i 31% (17) gael eu dyrannu. O blith y 1,713 o geisiadau safonol a wnaed yn dilyn rhai brys, cymerodd fwy na 14 diwrnod i 58% (991) gael eu dyrannu. O ran y 132 o geisiadau pellach, cymerodd fwy na mis i 9% (12) gael eu dyrannu. Gweler Tabl 3.4.

**Tabl 3.4.** Yr amser a gymerodd i ddyrannu pob cais am DoLS i'w asesu yn ôl y math o gais a'r bwrdd iechyd yn 2022-23.

| | 1-7 diwrnod | 8-14 diwrnod | 15-28 diwrnod | 1-3 mis | 3-6 mis | Mwy na 6 mis |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Safon** | | | |
| **Pob Bwrdd Iechyd** | 13% | 22% | 35% | 29% | 2% | 0% |
| *Nifer y Ceisiadau* | *7* | *12* | *19* | *16* | *1* | *0* |
| | | | **Brys** | | | |
| **Pob Bwrdd Iechyd** | 25% | 17% | 24% | 31% | 2% | 0% |
| *Nifer y Ceisiadau* | *421* | *301* | *419* | *539* | *33* | *0* |
| | | | **Pellach** | | | |
| **Pob Bwrdd Iechyd** | 64% | 20% | 7% | 8% | 1% | 0% |
| *Nifer y Ceisiadau* | *84* | *27* | *9* | *11* | *1* | *0* |
| | | | **Pob Cais** | | | |
| **Pob Bwrdd Iechyd** | 27% | 18% | 24% | 30% | 2% | 0% |
| *Nifer y Ceisiadau* | *512* | *340* | *447* | *566* | *35* | *0* |


### *Yr amser a gymerodd i ddyrannu asesiadau safonol*

Mae cryn amrywio rhwng awdurdodau lleol wrth ddyrannu ceisiadau safonol. Sir y Fflint a gofnododd y gyfran uchaf o geisiadau a ddyrannwyd o fewn 28 diwrnod, sef 96% (90), gydag Abertawe yn dyrannu 84% (596) o'r ceisiadau i asesydd o fewn y cyfnod o 28 diwrnod. Er mwyn cymharu, cymerodd rhai awdurdodau lleol fwy na chwe mis i ddyrannu mwy na thraean o'u ceisiadau i asesydd – Torfaen 55% (11), Sir Fynwy 38% (11) a Sir Gaerfyrddin 35% (78). Gweler Ffigur 3.1.


O ran byrddau iechyd, o blith y 55 o geisiadau safonol a ddyrannwyd, cymerodd fwy na 28 diwrnod i 31% gael eu dyrannu. Caerdydd a'r Fro a gofnododd y gyfran uchaf o geisiadau safonol na chawsant eu dyrannu o fewn y cyfnod targed, gyda

54% o'r ceisiadau safonol a wnaed i'r bwrdd iechyd yn cael eu dyrannu fwy na 28 diwrnod ar ôl dechrau'r cais, ac un cais yn cael ei ddyrannu fwy 109 o ddiwrnodau ar ôl hynny. Gweler Ffigur 3.2.

**Ffigur 3.1**. Yr amser a gymerodd i ddyrannu ceisiadau safonol am DoLS i'w hasesu yn ôl awdurdod lleol yn 2022-23.



**Ffigur 3.2.** Yr amser a gymerodd i ddyrannu ceisiadau safonol am DoLS i'w hasesu yn 2022-23, yn ôl bwrdd iechyd.





### *Yr amser a gymerodd i ddyrannu asesiadau safonol yn dilyn rhai brys*


Llwyddodd nifer o awdurdodau lleol i ddyrannu cyfrannau mawr o geisiadau safonol yn dilyn rhai brys o fewn 14 diwrnod - sef 100% (37) o geisiadau gan Gastell-nedd Port Talbot, 100% (12) gan Sir Ddinbych, 98% (61) gan Abertawe, 87% (13) gan Geredigion, a 80% (12) gan Sir y Fflint. I'r gwrthwyneb, ni chafodd 30% (20) o'r ceisiadau safonol yn dilyn rhai brys a wnaed i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili eu dyrannu i asesydd am fwy na chwe mis. Gweler Ffigur 3.3.

O ran byrddau iechyd, o blith y 1,723 o geisiadau safonol yn dilyn rhai brys a ddyrannwyd i'w hasesu, ni chafodd 57% eu dyrannu o fewn yr uchafswm cyfnod a ganiateir, sef 14 diwrnod. Betsi Cadwaladr a gofnododd y gyfran uchaf o geisiadau safonol yn dilyn rhai brys na chawsant eu dyrannu o fewn y targed, gyda 77% o'r ceisiadau safonol yn dilyn rhai brys a wnaed i'r bwrdd iechyd yn cael eu dyrannu fwy na 14 diwrnod ar ôl dechrau'r cais. Yn Hywel Dda y gwelwyd y cyfnodau hwyaf cyn dyrannu ceisiadau, gyda'r bwrdd iechyd yn cymryd mwy na chwe mis i ddyrannu pum cais, a chymaint â 238 o ddiwrnodau yn achos un ohonynt. Gweler Ffigur 3.4.

**Ffigur 3.3.** Yr amser a gymerodd i ddyrannu ceisiadau safonol yn dilyn rhai brys am DoLS i'w hasesu yn ôl awdurdod lleol yn 2022-23.



**Ffigur 3.4.** Yr amser a gymerodd i ddyrannu ceisiadau safonol yn dilyn rhai brys am DoLS i'w hasesu yn 2022-23, yn ôl bwrdd iechyd.





## *Yr amser a gymerodd i ddyrannu asesiadau pellach*


Perfformiodd nifer sylweddol o awdurdodau lleol yn well o ran dyrannu ceisiadau pellach i asesydd o fewn 28 diwrnod o gymharu â cheisiadau safonol, gydag Ynys Môn yn llwyddo i ddyrannu bron 100% (104) o'i geisiadau pellach o fewn y cyfnod hwn. Powys a Sir Gaerfyrddin a gofnododd y gyfran uchaf o geisiadau pellach na chawsant eu dyrannu i asesydd am fwy na chwe mis, sef 18% (18) a 16% (21), yn y drefn honno. Cofnododd Merthyr Tudful 20 o geisiadau pellach ar gyfer 2022-23, ond ni chofnododd unrhyw wybodaeth am ddyddiadau i'w chynnwys yn y dadansoddiad hwn. Gweler Ffigur 3.5.

O ran byrddau iechyd, o blith y 132 o geisiadau pellach i'w dyrannu i'w hasesu, cymerodd fwy na 28 diwrnod i 9% gael eu dyrannu. Cwm Taf oedd y bwrdd iechyd a gofnododd y gyfran uchaf o geisiadau na chawsant eu dyrannu o fewn y cyfnod targed, wrth i'r bwrdd iechyd gymryd mwy na 28 diwrnod i ddyrannu saith cais. Yn Hywel Dda y gwelwyd yr oedi mwyaf, wrth i'r bwrdd iechyd gymryd 94 diwrnod i ddyrannu un cais. Gweler Ffigur 3.6.

**Ffigur 3.5**. Yr amser a gymerodd i ddyrannu ceisiadau pellach am DoLS i'w hasesu yn ôl awdurdod lleol yn 2022-23.



**Ffigur 3.6.** Yr amser a gymerodd i ddyrannu ceisiadau pellach am DoLS i'w hasesu yn 2022-23, yn ôl bwrdd iechyd.



## 4. Cwblhau asesiadau

Drwy gymharu'r dyddiad y cafodd y ffurflen gais am DoLS ei ddyrannu i asesydd (ail asesydd neu unig asesydd) â dyddiad y penderfyniad (i roi neu wrthod awdurdodiad) ar gyfer data 2022-23, gallwn bennu bod 49% (5,959) o'r ceisiadau am DoLS a wnaed i awdurdodau lleol wedi arwain at asesiad wedi'i gwblhau. Ni ddarparodd Gwynedd unrhyw wybodaeth am ddyddiadau y gellid ei chynnwys yn y dadansoddiad.

O ran byrddau iechyd, cofnodwyd bod 27% (1,918) o'r ceisiadau am DoLS wedi cael eu dyrannu i un asesydd neu ail asesydd.

### *Cwblhau asesiadau safonol*

O blith y 2,208 o geisiadau safonol a aseswyd gan awdurdodau lleol yn 2022-23, dim ond 37% (818) a gafodd eu cwblhau o fewn y cyfnod statudol, sef 21 diwrnod.

Cwblhaodd Bro Morgannwg 81% (132) o asesiadau safonol o fewn y cyfnod statudol. Ymysg yr awdurdodau eraill a gwblhaodd gyfran uchel o asesiadau roedd Torfaen 74% (14) Sir Benfro 70% (54) a Blaenau Gwent 68% (15).


Abertawe a gwblhaodd y nifer mwyaf o asesiadau safonol, (630), ond dim ond 20% (129) o'r rhain a gwblhawyd o fewn y cyfnod o 21 diwrnod. Ni lwyddodd Sir Gaerfyrddin na Sir y Fflint i gwblhau'r mwyafrif o asesiadau o fewn y cyfnod, gan gwblhau dim ond 9% (8) a 10% (5) yn y drefn honno.

I grynhoi, ni lwyddodd nifer o awdurdodau lleol i gwblhau asesiadau statudol o fewn y cyfnod statudol o 21 diwrnod. Gweler Ffigur 4.1.


O ran byrddau iechyd, o blith y 55 o geisiadau safonol a aseswyd yn 2022-23, dim ond 53% (29) a gwblhawyd o fewn y cyfnod statudol o 21 diwrnod.

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a berfformiodd orau o ran ceisiadau safonol, gan gwblhau 83% (10) o'i geisiadau o fewn y cyfnod statudol. Dim ond 36% (8) o'i geisiadau safonol a gwblhaodd Cwm Taf Morgannwg o fewn y cyfnod statudol o 21 diwrnod.

**Ffigur 4.1.** Nifer yr asesiadau safonol a gwblhawyd o fewn y cyfnod statudol (21 diwrnod) yn ôl awdurdod lleol yn 2022-23.



**Ffigur 4.2**. Nifer yr asesiadau safonol a gwblhawyd o fewn y cyfnod statudol (21 diwrnod) yn ôl bwrdd iechyd yn 2022-23.




### *Cwblhau asesiadau safonol yn dilyn rhai brys*

Cafodd cyfanswm o 1,009 o geisiadau safonol yn dilyn rhai brys eu dyrannu gan awdurdodau lleol i'w hasesu yn 2022-23. Daeth llawer o awdurdodiadau brys i ben i'r asesiadau gofynnol cael eu cynnal;  dim ond 39% (393) o'r asesiadau a gwblhawyd o fewn y cyfnod statudol.


Bro Morgannwg a Sir Ddinbych a gwblhaodd y gyfran uchaf o asesiadau brys o fewn dim ond 7 diwrnod - 58% (7) yr un. Abertawe a Sir Ddinbych a gwblhaodd y gyfran uchaf o asesiadau o fewn y cyfnod o 7-14 diwrnod - 93% (51) a 91% (11) yn y drefn honno.

Wrecsam a gwblhaodd y nifer uchaf o asesiadau brys ledled Cymru (373) ond dim ond 32% (119) a lwyddodd i'w cwblhau o fewn y cyfnod o 7-14 diwrnod. Cwblhaodd Merthyr Tudful a Phowys niferoedd cymharol isel o asesiadau brys, ond cawsant anhawster i'w cwblhau o fewn y cyfnod o 7-14 diwrnod - 0% a 6% (4) yn y drefn honno. Gweler Ffigur 4.3.


O ran byrddau iechyd, cafodd cyfanswm o 1,727 o geisiadau safonol yn dilyn rhai brys eu dyrannu i'w hasesu yn 2022-23. Daeth nifer o awdurdodiadau brys i ben cyn i'r asesiadau gofynnol gael eu cynnal gan mai dim ond 42% (732) o'r asesiadau a gwblhawyd o fewn y cyfnod statudol o 7-14 diwrnod.

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a berfformiodd orau o ran ceisiadau safonol yn dilyn rhai brys, gan gwblhau 74% (134) o'r ceisiadau o fewn y cyfnod statudol. Betsi Cadwaladr a berfformiodd waethaf, gan gwblhau dim ond 23% (125) o'i geisiadau safonol yn dilyn rhai brys o fewn y cyfnod statudol. Cofnododd Cwm Taf Morgannwg gyfran debyg, gan gwblhau 23% (26) o'i geisiadau safonol yn dilyn rhai brys y cyfnod statudol o 7-14 diwrnod. Gweler Ffigur 4.4.

**Ffigur 4.3**. Nifer yr asesiadau safonol yn dilyn rhai brys a gwblhawyd o fewn y cyfnod statudol (7-14 diwrnod) yn ôl awdurdod lleol yn 2022-23.



**Ffigur 4.4**. Nifer yr asesiadau safonol yn dilyn rhai brys a gwblhawyd o fewn y cyfnod statudol (7-14 diwrnod) yn ôl bwrdd iechyd yn 2022-23.




### *Cwblhau asesiadau pellach*

O ran awdurdodau lleol, cafodd cyfanswm o 2,742 o geisiadau pellach eu hasesu yn 2022-23, ond dim ond 43% (1,179) o'r rhain a gwblhawyd o fewn y cyfnod statudol o 21 diwrnod.


Unwaith eto, cwblhaodd Bro Morgannwg gyfran uchel o asesiadau pellach o fewn y cyfnod statudol, sef 84% (115). Ymysg yr awdurdodau eraill a gwblhaodd gyfran uchel o asesiadau pellach roedd Sir Benfro 79% (83), Wrecsam 73% (233) a Blaenau Gwent 71% (42).

Cafodd Merthyr Tudful un cais pellach i'w asesu ond ni lwyddodd i'w gwblhau o fewn y cyfnod statudol. Cafodd Castell-nedd Port Talbot nifer mawr o geisiadau pellach i'w hasesu (329), a dim ond 4% (12) ohonynt a gwblhaodd o fewn y cyfnod o 21 diwrnod. Gweler Ffigur 4.5.


O ran byrddau iechyd, cafodd cyfanswm o 132 o geisiadau pellach eu hasesu 2022-23, a chafodd 89% (118) o'r rhain eu cwblhau o fewn y cyfnod statudol o 21 diwrnod.

Cafodd yr holl geisiadau pellach a wnaed i fyrddau iechyd Aneurin Bevan (2) a Betsi Cadwaladr (74) eu cwblhau o fewn y cyfnod statudol. Cofnododd Hywel Dda gyfran uchel o geisiadau a gwblhawyd o fewn y cyfnod statudol hefyd, wrth i 96% (23) gael eu cwblhau o fewn 21 diwrnod. Gweler Ffigur 4.6.

**Ffigur 4.5**. Nifer yr asesiadau pellach a gwblhawyd o fewn y cyfnod statudol (21 diwrnod) yn ôl awdurdod lleol yn 2022-23.



**Ffigur 4.6**. Nifer yr asesiadau pellach a gwblhawyd o fewn y cyfnod statudol (21 diwrnod) yn ôl bwrdd iechyd yn 2022-23.



## 5. Canlyniad asesiadau

Yn 2022-23, cafodd 5,959 o'r ceisiadau am DoLS a wnaed i awdurdodau lleol eu hasesu, o gymharu â 5,050 yn 2021-22. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd canrannol o 18% (909) yn nifer yr asesiadau a gwblhawyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru.


O ran byrddau iechyd, cafodd 1,918 o geisiadau am DoLS eu hasesu yn 2022-23, o gymharu â 1,454 yn 2021-22. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd canrannol o 32% (464) yn nifer yr asesiadau a gwblhawyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

### *Ceisiadau a awdurdodwyd*


O blith y 2,024 o geisiadau a wnaed i fyrddau iechyd a gafodd eu hasesu, aeth tua 52% (1054) ymlaen i gael eu hawdurdodi gan Gyrff Goruchwylio. Mae'r ffigur hwn yn llai na'r 74% o geisiadau a gafodd eu hasesu a'u hawdurdodi yn y flwyddyn flaenorol. Gweler Ffigur 5.1.

O ran awdurdodau lleol, o blith y 5,959 o geisiadau a aseswyd, aeth 94% (5,597) ymlaen i gael eu hawdurdodi gan Gyrff Goruchwylio. Mae'r ffigur hwn yn debyg i'r 95% o geisiadau a gafodd eu hasesu a'u hawdurdodi yn y flwyddyn flaenorol. Gweler Ffigur 5.2.

**Ffigur 5.1**. Cyfran y ceisiadau a awdurdodwyd gan bob bwrdd iechyd yn 2022-23.



**Ffigur 5.2**. Cyfran y ceisiadau a awdurdodwyd gan bob awdurdod lleol yn 2022-23.





Gall yr asesydd budd pennaf argymell y dylai amodau fod ynghlwm wrth yr awdurdodiad. Gall wneud argymhellion ynglŷn â materion cyswllt, materion sy'n berthnasol i ddiwylliant y person neu faterion eraill o bwys sy'n ymwneud ag amddifadu o ryddid, a fyddai, heb eu datrys, yn golygu na fyddai amddifadu'r person o'i ryddid er ei fudd pennaf. Gall hefyd argymell amodau er mwyn osgoi amddifadu o ryddid yn y dyfodol.

O blith y 5,597 o geisiadau a awdurdodwyd gan awdurdodau lleol, roedd amodau ynghlwm wrth 58% (3,229). Wrth ddadansoddi yn ôl y math o gais, roedd amodau ynghlwm wrth 68% (612) o geisiadau safonol yn dilyn rhai brys, o gymharu â 55% (1,137) ar gyfer ceisiadau safonol a 56% (1,480) ar gyfer ceisiadau pellach.


Caerffili (82%, 163), Casnewydd (80%, 375) a Blaenau Gwent (80%, 107) a gofnododd y gyfran uchaf o awdurdodau heb unrhyw amodau ynghlwm wrthynt. Dylai rhai awdurdodau lleol archwilio eu hymarfer presennol er mwyn sicrhau y caiff amodau eu defnyddio lle bo angen a'u bod yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i bobl, gan gynnwys lleihau neu roi'r gorau i'r amddifadu. Mae hwn yn faes y bydd AGC yn ei ystyried ymhellach gydag awdurdodau lleol unigol fel rhan o waith monitro parhaus. Gweler Ffigur 5.3.

**Ffigur 5.3**. Nifer y ceisiadau a awdurdodwyd yr oedd amodau ynghlwm wrthynt yn ôl awdurdod lleol.



O ran byrddau iechyd, o blith y 1,027 o geisiadau a awdurdodwyd, roedd amodau ynghlwm wrth 91% (933). Wrth ddadansoddi yn ôl y math o gais, roedd amodau ynghlwm wrth 90% (725) o geisiadau safonol yn dilyn rhai brys, o gymharu â 95% (79) ar gyfer ceisiadau safonol a 95% (127) ar gyfer ceisiadau pellach.

**Ffigur 5.4**. Canran y ceisiadau a awdurdodwyd yr oedd amodau ynghlwm wrthynt yn ôl bwrdd iechyd.



### *Ceisiadau a wrthodwyd a'r rheswm dros hynny*

O ran y ceisiadau a wnaed i fyrddau iechyd, cafodd 14% (970) o'r ceisiadau a aseswyd eu gwrthod yn 2022-23, ac roedd y rhesymau dros hynny yn amrywio rhwng y byrddau iechyd. Yn achos y mwyafrif o'r ceisiadau a wrthodwyd, roedd y rhesymau dros eu gwrthod yn ymwneud â'r ffaith nad oedd yr amod galluedd meddyliol wedi'i fodloni, hynny yw bod gan y person y galluedd i gytuno i unrhyw amddifadu, gyda hyn yn cael ei nodi fel y prif reswm dros wrthod 72% (167) o'r ceisiadau a wrthodwyd. Gweler Tabl 5.1.

**Tabl 5.1.** Cyfran y ceisiadau na chawsant eu hawdurdodi yn ôl y rheswm dros eu gwrthod fesul bwrdd iechyd yn 2022/23.

| | **Gwrthodwyd** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Budd pennaf | Cymhwy-sedd | Galluedd Meddyliol | Iechyd Meddwl | Nid yn achos o amddifadu |
| Aneurin Bevan *(8)* | 0% | 13% | 75% | 13% | 0% |
| Betsi Cadwaladr *(40)* | 0% | 10% | 73% | 15% | 3% |
| Caerdydd a'r Fro *(6)* | 0% | 67% | 33% | 0% | 0% |
| Cwm Taf Morgannwg *(31)* | 0% | 3% | 74% | 23% | 0% |
| Hywel Dda *(38)* | 0% | 39% | 55% | 0% | 5% |
| Addysgu Powys *(18)* | 0% | 11% | 78% | 11% | 0% |
| Bae Abertawe *(91)* | 0% | 1% | 79% | 19% | 1% |
| **Pob Bwrdd Iechyd** | **0%** | **12%** | **72%** | **14%** | **2%** |
| *(Nifer y Ceisiadau)* | *0* | *28* | *167* | *33* | *4* |

Yn gyffredinol, o ran awdurdodau lleol, dim ond 3% (389[5]) o'r ceisiadau a aseswyd a gafodd eu gwrthod yn 2022-23, ac roedd y rhesymau dros eu gwrthod yn amrywio rhwng pob awdurdod lleol. O blith y ceisiadau hyn, cafodd 69% (251) eu gwrthod am nad oedd yr amod galluedd meddyliol wedi'i fodloni, sy'n debyg i ffigurau'r flwyddyn flaenorol. At hynny, cafodd 23% (85) o'r ceisiadau eu gwrthod ar sail cymhwysedd[6]. Er bod mwy na thri chwarter y ceisiadau (83) a wrthodwyd gan Sir Gaerfyrddin wedi'u gwrthod ar sail cymhwysedd, niferoedd bach iawn o geisiadau a wrthodwyd gan rai awdurdodau lleol. Ni wrthododd Bro Morgannwg nac Ynys Môn unrhyw un o'r ceisiadau a aseswyd yn ystod 2022-23. Gweler Tabl 5.2

[5] Nid yw 27 o'r ceisiadau a wrthodwyd wedi'u cynnwys yn Nhabl 5.2 oherwydd gwallau wrth gofnodi'r rheswm dros eu gwrthod
[6] Gweler y Rhestr Termau am ragor o wybodaeth

**Tabl 5.2.** Cyfran y ceisiadau na chawsant eu hawdurdodi yn ôl y rheswm dros eu gwrthod fesul awdurdod lleol yn 2022/23.

| | **Gwrthodwyd** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| *(Nifer y ceisiadau)* | Budd pennaf | Cymhwy-sedd | Galluedd Meddyliol | Iechyd Meddwl | Nid yn achos o amddifadu |
| Blaenau Gwent *(10)* | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% |
| Pen-y-bont ar Ogwr *(17)* | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% |
| Caerffili *(19)* | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% |
| Caerdydd *(1)* | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% |
| Sir Gaerfyrddin *(104)* | 4% | 80% | 15% | 1% | 0% |
| Ceredigion *(6)* | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% |
| Conwy *(16)* | 50% | 0% | 50% | 0% | 0% |
| Sir Ddinbych *(5)* | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% |
| Sir y Fflint *(3)* | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% |
| Gwynedd *(2)* | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% |
| Ynys Môn *(0)* | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Merthyr Tudful *(2)* | 50% | 0% | 0% | 50% | 0% |
| Sir Fynwy *(9)* | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% |
| Castell-nedd Port Talbot *(11)* | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% |
| Casnewydd *(45)* | 0% | 0% | 98% | 2% | 0% |
| Sir Benfro *(14)* | 7% | 0% | 93% | 0% | 0% |
| Powys *(8)* | 0% | 0% | 75% | 13% | 13% |
| Rhondda Cynon Taf *(1)* | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% |
| Abertawe *(49)* | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% |
| Torfaen *(6)* | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% |
| Bro Morgannwg *(0)* | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Wrecsam *(34)* | 0% | 6% | 74% | 3% | 18% |
| **Pob Awdurdod Lleol** | **4%** | **23%** | **69%** | **1%** | **2%** |
| *(Nifer y Ceisiadau)* | *14* | *85* | *251* | *5* | *7* |

## 6. Hyd awdurdodiad


### *Hyd awdurdodiad*

Mae'r Cod Ymarfer[7] yn nodi y dylai unrhyw awdurdodiad fod am gyn lleied o amser â phosibl, a dim ond cyhyd ag y bydd y person perthnasol yn bodloni'r meini prawf gofynnol.

O blith y 2,871 o geisiadau safonol a cheisiadau safonol yn dilyn rhai brys a awdurdodwyd gan awdurdodau lleol yn 2022-23, cafodd cyfrannau uchel eu hawdurdodi am fwy na naw mis – 80% (1,594) a 61% (544) yn y drefn honno.

At hynny, wrth gymharu'r data â'r flwyddyn flaenorol, gellir gweld  cynnydd yn nifer y ceisiadau a awdurdodwyd am fwy na chwe mis ar gyfer y ddau fath o gais. Yn 2022-23, nodir cynnydd o 3% yn nifer y ceisiadau safonol a awdurdodwyd am fwy na chwe mis, wrth i 84% (1,676) o geisiadau safonol gael eu hawdurdodi o fewn y cyfnod hwn. Nodir cynnydd o 9% ar gyfer ceisiadau safonol yn dilyn rhai brys hefyd yn 2022-23, wrth i 68% (606) gael eu hawdurdodi am fwy na chwe mis.  Gweler Ffigur 6.1.

**Ffigur 6.1**. Hyd arfaethedig awdurdodiadau yn ôl awdurdod lleol yn 2022-23.





[7] Gweler Mental Capacity Act 2005: Deprivation of liberty safeguards - Code of Practice

Yn 2022-23, awdurdodiadau am chwe mis neu lai oedd 95% o'r awdurdodiadau a wnaed gan fyrddau iechyd, ac awdurdodiadau am dri mis neu lai oedd 32% ohonynt. Dim ond 2% o'r awdurdodiadau oedd am flwyddyn gyfan.

Mae Caerdydd a Chwm Taf Morgannwg ymysg y byrddau iechyd a wnaeth awdurdodiadau blwyddyn o hyd. O ran y byrddau iechyd hyn, gellir priodoli hyn i'r ffaith bod nifer cymharol uchel o unedau anableddau dysgu, unedau niwroleg arbenigol ac ysbytai preifat/annibynnol sy'n darparu gofal adsefydlu hirdymor. Gweler Ffigur 6.2

**Ffigur 6.2.** Hyd arfaethedig awdurdodiadau yn ôl bwrdd iechyd yn 2022-23.



## 7. Nodweddion unigol


### *Ceisiadau yn ôl Oedran, Rhywedd ac Ethnigrwydd*

Mae pobl dros 65 oed yn cyfrif am 86% o'r ceisiadau am DoLS a wnaed i awdurdodau lleol ledled Cymru, ac mae menywod yn cyfrif am 63% (7,625) o'r holl geisiadau a wnaed, gyda'r mwyafrif ohonynt yn y grwpiau oedran hŷn.

Fel y gwelwyd mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r duedd ddemograffig yn dangos bod dynion yn cyfrif am niferoedd cymharol uwch o'r ceisiadau hyd at 64 oed, a bod newid sylweddol wedyn yn y grwpiau oedran hŷn, gyda menywod yn cyfrif am gyfran uwch o'r ceisiadau. Gweler Ffigur 7.1.

Mae ychydig dros dri chwarter y ceisiadau am DoLS ar gyfer pobl Wyn ac mae llai na 1% ar gyfer pobl o gefndir Asiaidd neu Ddu. Mae cofnodi ethnigrwydd yn faes y mae angen i Gyrff Goruchwylio ei wella.

**Ffigur 7.1**. Dadansoddiad o oedran yn ôl rhywedd mewn awdurdodau lleol ar gyfer pob cais yn 2022-23.




O ran byrddau iechyd, y prif grŵp o bobl y gwnaed cais am DoLS ar eu cyfer oedd pobl hŷn, ac roedd bron 87% o'r ceisiadau a wnaed i fyrddau iechyd yn 2022-23 yn geisiadau ar gyfer rhywun dros 65 oed.

Roedd rhaniad eithaf tebyg o ran rhywedd ar draws yr holl grwpiau oedran, gyda 49% o fenywod a 51% o ddynion. Mae'r gwahaniaethau o ran demograffeg rhwng ardaloedd yn adlewyrchu, i raddau helaeth, y poblogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir gan y lleoliadau yn yr ardaloedd hynny. Gweler Ffigur 7.2.

Yn yr un modd, o ran byrddau iechyd, ar gyfer unigolion Gwyn y gwnaed y gyfran uchaf o'r ceisiadau am DoLS yn 2022-23, sef tua 80% o'r holl geisiadau. Cafodd llai nag 1% o'r ceisiadau eu gwneud ar gyfer pobl o gefndir Asiaidd, Du neu Gymysg. Mae cofnodi ethnigrwydd yn faes y mae angen ei wella fel rhan o'r broses casglu data, gan na chofnodwyd ethnigrwydd yr ymgeisydd ar gyfer tua 19% o geisiadau byrddau iechyd. Ochr yn ochr â hyn, ni ddarparodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro unrhyw ddata ar ethnigrwydd ar gyfer ei geisiadau.

**Ffigur 7.2**. Dadansoddiad o oedran yn ôl rhywedd mewn byrddau iechyd ar gyfer pob cais yn 2022-23.



## 8. Monitro a Chymorth

### *Adolygiadau*

Pan fydd person wedi'i amddifadu o'i ryddid, rhaid i'r awdurdod rheoli wneud cais am adolygiad os bydd yn ymddangos na chaiff un neu fwy o'r gofynion cymhwyso eu bodloni mwyach.

Yn ystod 2022-23, bu 130 o bobl mewn awdurdodau lleol yn destun adolygiad o'u hawdurdodiad. Mae hyn yn cynrychioli 2% o'r ceisiadau a awdurdodwyd gan awdurdodau lleol[8].

Ni chafodd y canlyniadau ar gyfer yr adran hon eu cwblhau'n gywir ar gyfer dau fwrdd iechyd, gan olygu bod y canlyniadau yn anghyflawn ar gyfer byrddau iechyd.

### *Cynrychiolaeth*

Rhaid i'r Bwrdd Goruchwylio sicrhau y caiff pobl eu cefnogi a'u cynrychioli mewn materion sy'n ymwneud â'u hamddifadu o'u rhyddid, a rhaid i'r person y gwneir cais ar ei gyfer gael ei gynrychioli gan berson enwebedig. Yn 2022-23, cafodd 58% (609) o'r ceisiadau a awdurdodwyd gan fyrddau iechyd a 58% (3,262) o'r ceisiadau a awdurdodwyd gan awdurdodau lleol eu cynrychioli gan berthynas, ffrind, neu ofalwr.

Pan na fydd neb sy'n annibynnol ar wasanaethau ar gael i gynrychioli'r person, rhaid i Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol neu gynrychiolydd cyflogedig gael ei gyfarwyddo. Cofnododd byrddau iechyd 41% (430) o awdurdodiadau â chynrychiolaeth gyflogedig, a chofnododd awdurdodau lleol ganran debyg, sef 41% (2,305 o awdurdodiadau). Ni chofnodwyd unrhyw fath o gynrychiolaeth ar gyfer tua 1% (13) o awdurdodiadau byrddau iechyd ac 1% (30) o awdurdodiadau awdurdodau lleol.

### *Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol*

Mae'r Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol yn chwarae rôl ddiogelu bwysig i sicrhau bod y person a'i gynrychiolydd yn deall eu hawliau pan gaiff asesiadau eu cynnal ac ar ôl i awdurdodiad gael ei roi.

O blith y cyfanswm o 5,597 o geisiadau a awdurdodwyd gan awdurdodau lleol, roedd 5% (283) yn defnyddio Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol a benodwyd o dan Adran 39A, llai nag 1% (46) yn defnyddio Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol a benodwyd o dan Adran 39D a llai nag 1% (2) yn defnyddio Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol a benodwyd o dan Adran 39C.

[8] Bu 8 o'r rhain yn destun nifer o adolygiadau.

Roedd y ffigurau hyn yn amrywio'n sylweddol rhwng awdurdodau lleol, gyda Chastell-nedd Port Talbot yn cofnodi'r nifer mwyaf o Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol a benodwyd o dan Adran 39A [165 neu 58%]. Cofnododd Abertawe draean (14) o'r holl Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol a benodwyd o dan Adran 39D, a dyma'r unig awdurdod lleol i benodi dau Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol o dan Adran 39C y flwyddyn hon.

O blith y cyfanswm o 1,054 o geisiadau a awdurdodwyd gan fyrddau iechyd, roedd 21 (2%) yn defnyddio Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol a benodwyd o dan Adran 39A a 29 (3%) yn defnyddio Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol a benodwyd o dan Adran 39D, ac nid oedd yr un ohonynt yn defnyddio Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol a benodwyd o dan Adran 39C. Roedd hyn yn amrywio rhwng byrddau iechyd, gyda'r mwyafrif o Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol yn cael eu penodi gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

### *Y Llys Gwarchod*

Gall y person, neu unrhyw un sy'n gweithredu ar ei ran, wneud cais i'r Llys Gwarchod cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud ynglŷn â chais neu ar ôl i awdurdodiad gael ei roi.

Cafodd cyfanswm o 22 o awdurdodiadau eu hatgyfeirio gan fyrddau iechyd at y Llys Gwarchod yn 2022-23. Mae'r ffigur hwn wedi parhau'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf (32 yn 2021-22, 26 yn 2020-21 a 34 yn 2019-20). Eleni, cafodd y mwyafrif o'r atgyfeiriadau eu gwneud gan fyrddau iechyd Aneurin Bevan, Betsi Cadwaladr a Chwm Taf Morgannwg. Gweler Tabl 8.1.

**Tabl 8.1.** Cyfran yr atgyfeiriadau a wnaed gan fyrddau iechyd i'r Llys Gwarchod yn ystod 2019-23

| | **2019-20** | **2020-21** | **2021-22** | **2022-23** |
|---|---|---|---|---|
| Aneurin Bevan | 0.0% | 1.6% | 1.0% | 9.6% |
| Betsi Cadwaladr | 5.6% | 3.0% | 5.1% | 2.3% |
| Caerdydd a'r Fro | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Cwm Taf Morgannwg | 3.7% | 3.2% | 4.8% | 2.4% |
| Hywel Dda | 1.0% | 1.9% | 0.0% | 0.0% |
| Addysgu Powys | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Bae Abertawe | 0.8% | 1.7% | 0.0% | 0.0% |
| Cyfanswm yr atgyfeiriadau | 34 | 26 | 32 | 22 |
| **Cyfran yr atgyfeiriadau** | **2.2%** | **2.1%** | **2.6%** | **2.1%** |

Cafodd cyfanswm o 104 o awdurdodiadau eu hatgyfeirio gan awdurdodau lleol at y Llys Gwarchod yn 2022-23, sef nifer tebyg i'r hyn a gofnodwyd yn 2021-22 (105). Mae cyfran yr atgyfeiriadau wedi parhau'n gyson ar 2% o'r holl awdurdodiadau DoLS yn ystod 2020-23. Wrecsam a Sir y Fflint a gofnododd y niferoedd mwyaf o atgyfeiriadau ar gyfer y cyfnod cyfredol. Wrth ystyried y data a gofnodwyd ar gyfer y tair blynedd diwethaf, ni wnaeth Conwy, Castell-nedd Port Talbot na Bro Morgannwg unrhyw atgyfeiriadau at y Llys Gwarchod. Gweler Tabl 8.2.

**Tabl 8.2.** Cyfran yr atgyfeiriadau a wnaed gan awdurdodau lleol at y Llys Gwarchod yn ystod 2020-23.

| | **2020-21** | **2021-22** | **2022-23** |
|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 2.3% | 0.0% | 0.0% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1.2% | 1.0% | 2.9% |
| Caerffili | 3.5% | 0.0% | 0.0% |
| Caerdydd | 1.2% | 0.0% | 0.0% |
| Sir Gaerfyrddin | 5.8% | 10.5% | 7.7% |
| Ceredigion | 1.2% | 3.8% | 12.5% |
| Conwy | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Sir Ddinbych | 10.5% | 5.7% | 3.8% |
| Sir y Fflint | 20.9% | 19.0% | 15.4% |
| Gwynedd | 0.0% | 1.9% | 0.0% |
| Ynys Môn | 0.0% | 0.0% | 6.7% |
| Merthyr Tudful | 1.2% | 0.0% | 1.9% |
| Sir Fynwy | 3.5% | 1.9% | 0.0% |
| Castell-nedd Port Talbot | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Casnewydd | 2.3% | 5.7% | 2.9% |
| Sir Benfro | 1.2% | 0.0% | 1.0% |
| Powys | 3.5% | 14.3% | 7.7% |
| Rhondda Cynon Taf | 22.1% | 16.2% | 12.5% |
| Abertawe | 8.1% | 11.4% | 5.8% |
| Torfaen | 9.3% | 1.0% | 1.9% |
| Bro Morgannwg | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Wrecsam | 2.3% | 7.6% | 17.3% |
| Cyfanswm yr atgyfeiriadau | 86 | 105 | 104 |
| **Cyfran yr atgyfeiriadau** | **1.9%** | **2.2%** | **1.9%** |

## Atodiad i'r Adroddiad

### *Ansawdd Data*

Defnyddir y data yn yr adroddiad hwn i fonitro'r defnydd o DoLS ledled Cymru. Fe'u cyflwynir gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd i AGC, ond nid ydynt wedi'u dilysu gan AGC nac AGIC.

Efallai fod nifer bach o achosion lle mae ceisiadau wedi'u labelu'n amhriodol fel rhai Safonol neu Frys, ac efallai nad yw'r canlyniadau'n gwbl gywir.

Mewn rhai achosion, lle mae gwerthoedd wedi'u cynrychioli gan ffigur ynghyd â'u cyfanswm, efallai fod y gwerthoedd ychydig yn wahanol o ganlyniad i'r gwerthoedd wedi'u talgrynnu.

### *Adborth ar yr adroddiad hwn*

Rydym yn awyddus i glywed gan bobl sy'n defnyddio ein hystadegau. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn neu ei gynhyrchion cysylltiedig, byddem yn eu croesawu'n fawr. E-bostiwch CIWInformation@gov.wales neu AGIC.PIM@llyw.cymru.

## *Rhestr Termau: Termau allweddol a ddefnyddir yn yr Adroddiad Monitro DoLS*

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Asesiad at ddiben Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid** | Rhaid i bob un o'r chwe asesiad fod yn gadarnhaol er mwyn i awdurdodiad gael ei roi. |
| • **Oedran** | Asesu a yw'r person perthnasol wedi cyrraedd 18 oed. |
| • **Asesiad budd pennaf** | Asesu a yw amddifadu o ryddid er budd pennaf y person perthnasol, yn angenrheidiol er mwyn atal niwed i'r person, ac yn ymateb cymesur i'r tebygolrwydd o'r niwed hwnnw a'i ddifrifoldeb. Rhaid i Aseswr Budd Pennaf benderfynu ar hyn. |
| • **Asesiad cymhwysedd** | Asesu p'un a yw person yn anghymwys i gael awdurdodiad amddifadu o ryddid safonol ai peidio, gan y byddai'r awdurdodiad yn mynd yn groes i ofynion sydd wedi'u gosod, neu a allai gael eu gosod, ar y person o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. |
| • **Asesiad galluedd meddyliol** | Asesu p'un a oes gan berson y galluedd i benderfynu a ddylai fynd i ysbyty neu gartref gofal penodol er mwyn derbyn gofal neu driniaeth, ai peidio. |
| • **Asesiad iechyd meddwl** | Asesu p'un a oes gan berson anhwylder meddyliol ai peidio. Ymarferydd meddygol ddylai benderfynu hyn. |
| • **Asesiad dim gwrthodiad** | Asesu a oes unrhyw awdurdod arall yn bodoli i wneud penderfyniadau ar ran y person perthnasol a fyddai'n atal awdurdodiad amddifadu o ryddid safonol rhag cael ei roi. Gallai hyn gynnwys unrhyw benderfyniad dilys a wnaed ymlaen llaw, neu benderfyniad dilys a wnaed gan ddirprwy neu o dan Atwrneiaeth Arhosol. |
| **Aseswr Budd Pennaf** | Person sy'n cynnal asesiad ar gyfer trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid. |

| Term | Disgrifiad |
| --- | --- |
| **Galluedd** | Hynny yw galluedd meddyliol. Y gallu i wneud penderfyniad am fater penodol ar yr adeg y mae angen i'r penderfyniad gael ei wneud. Ceir diffiniad cyfreithiol yn adran 2 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. |
| **Cartref gofal** | Cyfleuster gofal sydd wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 neu Ddeddf Safonau Gofal 2000. |
| **AGC** | Arolygiaeth Gofal Cymru yw'r corff sy'n gyfrifol am gynnal asesiadau proffesiynol a llunio barn am ofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol, ynghyd ag annog gwelliant gan y darparwyr gwasanaethau. |
| **Gofalwr** | Pobl sy'n darparu gofal a chymorth di-dâl i berthnasau, ffrindiau neu gymdogion eiddil, sâl neu sydd fel arall yn agored i niwed. |
| **Amodau** | Gofynion y gall Corff Goruchwylio eu gosod wrth roi awdurdodiad amddifadu o ryddid safonol, ar ôl ystyried unrhyw argymhellion a wnaed gan yr Aseswr Budd Pennaf. |
| **Cydsyniad** | Cytuno ar gamau gweithredu, yn benodol yn yr adroddiad hwn cytuno ar gynllun gofal neu driniaeth. Er mwyn i gydsyniad fod yn gyfreithiol ddilys, mae'n rhaid bod gan y person sy'n ei roi y galluedd i wneud y penderfyniad, a'i fod wedi cael digon o wybodaeth i'w wneud, ac na fu dan orfodaeth nac unrhyw bwysau amhriodol. |
| **Y Llys Gwarchod** | Y llys arbenigol ar gyfer pob mater sy'n ymwneud â phobl nad oes ganddynt alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau penodol. Y llys hwn sy'n bennaf cyfrifol am wneud penderfyniadau ac mae ganddo'r un hawliau, breintiau, pwerau ac awdurdod â'r Uchel Lys. Gall sefydlu cyfraith achos sy'n rhoi enghreifftiau o'r ffordd y dylai'r gyfraith gael ei rhoi ar waith. |

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Amddifadu o Ryddid** | Mae amddifadu o ryddid yn derm a ddefnyddir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol sy'n ymwneud ag amgylchiadau pan gaiff rhyddid unigolyn ei gymryd oddi wrtho. Caiff ei ystyr ar lefel ymarferol ei ddiffinio drwy gyfraith achos. |
| **Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid** | Y fframwaith trefniadau diogelu o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 i bobl y mae angen eu hamddifadu o'u rhyddid mewn ysbyty neu gartref gofal er eu budd pennaf er mwyn rhoi gofal neu driniaeth iddynt, ac nad oes ganddynt y galluedd i gydsynio i'r trefniadau a wnaed o ran eu gofal neu eu triniaeth. |
| **Awdurdodiad pellach** | Pan fydd awdurdodiad DoLS presennol ar fin dod i ben a daw'r Awdurdod Rheoli i'r casgliad bod angen i'r awdurdodiad barhau, yna dylid gwneud cais am awdurdodiad pellach. Gellir gwneud hyn 28 diwrnod ymlaen llaw. |
| **AGIC** | Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn rheoleiddio ac yn arolygu gwasanaethau'r GIG a darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru yn erbyn cyfres o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau er mwyn tynnu sylw at feysydd i'w gwella. |
| **Trefniadau Amddiffyn Rhyddid**<br><br>https://www.gov.uk/government/publications/liberty-protection-safeguards-factsheets | Cyflwynwyd y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn Neddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 a byddant yn disodli'r system Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS). Bydd y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn sicrhau canlyniadau gwell i bobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid neu y mae angen eu hamddifadu o'u rhyddid. Nod y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yw rhoi hawliau a dymuniadau'r bobl hynny wrth wraidd pob penderfyniad a wneir ynghylch amddifadu o ryddid. |

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Bwrdd iechyd** | Mae byrddau iechyd lleol yn cyflawni swyddogaeth corff goruchwylio ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd ac yn cydweithio ag awdurdodau lleol partner, yn yr un ardal ddaearyddol fel arfer, i gynllunio strategaethau hirdymor ar gyfer delio â materion iechyd a llesiant. Byddant yn rheoli ysbytai'r GIG a gwelyau cleifion mewnol ar wahân, os mai nhw yw'r awdurdod rheoli. |
| **Ysbyty Annibynnol** | Fel y'i diffinnir gan Ddeddf Safonau Gofal 2000 – ysbyty, sydd â'r prif ddiben o ddarparu triniaeth feddygol neu seiciatrig ar gyfer salwch neu anhwylder meddwl neu ofal lliniarol, neu unrhyw sefydliad arall, na chaiff ei ddiffinio'n ysbyty gwasanaeth iechyd, lle y darperir triniaeth neu ofal nyrsio (neu'r ddau) i bobl a all gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. |
| **Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol** | Eiriolwr hyfforddedig sy'n cefnogi ac yn cynrychioli person nad oes ganddo'r gallu i wneud penderfyniadau penodol, lle nad oes gan y person unrhyw un arall i'w gefnogi. Sefydlwyd y Gwasanaeth Eirioli Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol gan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 ac mae ei swyddogaethau wedi'u diffinio ynddi. |
| **Awdurdod lleol** | Yr awdurdod lleol (cyngor) sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol mewn unrhyw ran benodol o'r wlad. Uwch-reolwyr gwasanaethau cymdeithasol sy'n cyflawni swyddogaeth corff goruchwylio gwasanaethau gofal cymdeithasol.<br><br>Bydd gan gartrefi gofal a gaiff eu rhedeg gan yr awdurdod lleol awdurdodau rheoli dynodedig. |
| **Awdurdod rheoli** | Y person neu'r corff sydd â chyfrifoldeb rheoli am yr ysbyty neu'r cartref gofal penodol lle y caiff person ei amddifadu o'i ryddid, neu lle y gall gael ei amddifadu o'i ryddid. Mae'n atebol am y gofal uniongyrchol a roddir yn y lleoliad hwnnw. |

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Cyfnod awdurdodi hwyaf** | Y cyfnod hwyaf y gall corff goruchwylio roi awdurdodiad amddifadu o ryddid, na all fod yn fwy na 12 mis. Ni all fod yn fwy na'r cyfnod a argymhellir gan yr Aseswr Budd Pennaf, a gall ddod i ben yn gynt gyda chytundeb y Corff Goruchwylio. |
| **Deddf Galluedd Meddyliol 2005** | Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn darparu fframwaith i rymuso ac amddiffyn pobl nad oes ganddynt y galluedd i wneud rhai penderfyniadau drostynt eu hunain. Pum egwyddor allweddol y Ddeddf yw:<br><br>1. Mae gan bob oedolyn yr hawl i wneud ei benderfyniadau ei hun a rhaid tybio bod ganddo'r gallu i wneud hynny oni phrofir fel arall.<br><br>2. Rhaid i berson gael yr holl gymorth ymarferol cyn i unrhyw un ei drin fel rhywun na all wneud ei benderfyniadau ei hun.<br><br>3. Nid yw'r ffaith bod unigolyn yn gwneud yr hyn a allai gael ei ystyried yn benderfyniad annoeth yn ddigon o reswm dros ei drin fel rhywun nad oes ganddo'r gallu i wneud y penderfyniad hwnnw.<br><br>4. Rhaid i unrhyw beth a wneir, neu unrhyw benderfyniad a wneir ar ran person nad oes ganddo'r gallu gael ei wneud er ei fudd pennaf.<br><br>5. Dylai unrhyw beth a wneir dros neu ar ran person nad oes ganddo'r gallu gyfateb i'r hyn sy'n cyfyngu ar ei hawliau a'i ryddid sylfaenol leiaf. |

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Y Ddeddf Galluedd Meddyliol – Cod Ymarfer** | Mae'r Cod Ymarfer yn ategu Deddf 2005 ac yn rhoi canllawiau i bawb sy'n gofalu am oedolion nad oes ganddynt alluedd a/neu'n gwneud penderfyniadau ar eu rhan. Mae'r Cod yn cynnwys astudiaethau achos ac yn egluro nodweddion allweddol y Ddeddf yn fanylach. |
| **Deddf Iechyd Meddwl 1983** | Deddfwriaeth sy'n ymwneud yn bennaf â gofal a thriniaeth orfodol cleifion â phroblemau iechyd meddwl. Mae'n cynnwys cadw unigolyn yn yr ysbyty er mwyn iddo gael triniaeth iechyd meddwl, triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth a gwarcheidiaeth. |
| **Ysbyty neu gartref gofal perthnasol** | Yr ysbyty neu'r cartref gofal penodol lle y caiff person ei amddifadu o'i ryddid, neu lle y gall gael ei amddifadu o'i ryddid. |
| **Cynrychiolydd person perthnasol** | Person, sy'n annibynnol ar yr ysbyty neu'r cartref gofal penodol, a benodir i gadw mewn cysylltiad â'r person perthnasol, a'i gynrychioli a'i gefnogi ym mhob mater sy'n ymwneud â gweithredu'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid. |
| **Cyfyngu ar ryddid** | Camau a gymerir mewn perthynas â pherson nad ydynt i'r un graddau nac mor ddwys â'i amddifadu o'i ryddid. |
| **Adolygu** | Golwg ffurfiol, newydd sbon ar sefyllfa person perthnasol lle bu, neu lle y gallai fod, newid mewn amgylchiadau a all olygu bod angen diwygio awdurdodiad amddifadu o ryddid safonol, neu ei derfynu. |
| **Awdurdodiad safonol** | Awdurdodiad a roddir gan gorff goruchwylio, ar ôl cwblhau asesiad statudol, sy'n rhoi awdurdod cyfreithlon i amddifadu person perthnasol o'i ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal penodol. |

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Corff goruchwylio** | Adran gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol neu fwrdd iechyd lleol sy'n gyfrifol am ystyried cais amddifadu o ryddid a geir gan awdurdod rheoli, comisiynu'r asesiadau statudol a, lle bydd yr holl asesiadau yn cytuno, awdurdodi achos o amddifadu o ryddid. |
| **Y Goruchaf Lys** | Y Goruchaf Lys yw'r llys apêl olaf yn y DU ar gyfer achosion sifil, ac ar gyfer achosion troseddol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'n gwrando achosion sydd o'r pwys cyhoeddus neu gyfansoddiadol mwyaf sy'n effeithio ar y boblogaeth gyfan. |
| **Amddifadu o ryddid heb awdurdod** | Sefyllfa lle y caiff person ei amddifadu o'i ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal heb i hynny gael ei awdurdodi gan awdurdodiad amddifadu o ryddid safonol na brys. |
| **Awdurdodiad brys** | Awdurdodiad a roddir gan awdurdod rheoli am hyd at saith diwrnod, a all wedyn gael ei ymestyn am hyd at saith diwrnod arall gan gorff goruchwylio. Mae hyn yn rhoi awdurdod cyfreithlon i'r awdurdod rheoli amddifadu person o'i ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal wrth i'r broses awdurdodi amddifadu o ryddid safonol fynd rhagddi. |